Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	14 Mehefin 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Archwilio
Teitl	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Broses y Gyllideb

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r rhagamcanion ariannol diwygiedig am y cyfnod o dair blynedd rhwng 2024/25 a 2026/27 ynghyd â'r strategaeth gyllidebol arfaethedig ar gyfer pennu cyllideb 2024/25.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ynglŷn â'r rhagamcanion ariannol diwygiedig ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2024/25 a 2026/27.

2.2 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ynglŷn â'r strategaeth gyllidebol y mae'r Cabinet wedi'i chymeradwyo ar gyfer pennu cyllideb 2024/25.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi'r rhagamcanion ariannol diwygiedig ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2024/25 a 2026/27.

3.2 Nodi'r strategaeth gyllidebol y mae'r Cabinet wedi'i chymeradwyo ar gyfer pennu cyllideb 2024/25 a'i hystyried.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 **Crynodeb o'r sefyllfa wrth bennu cyllideb 2023/24**

Derbyniodd y Cyngor y Setliad Llywodraeth Leol Drafft ar gyfer 2023/24 ar 14 Rhagfyr ac roedd hwnnw'n un cadarnhaol, gyda chynnydd o 8.2% o gymharu â 7.9% ar gyfartaledd yng Nghymru. Golygai hynny gyllid ychwanegol o £14.231 miliwn. Gan fod y Cyngor yn wynebu gwasgfeydd gwerth £25.116 miliwn, fodd bynnag, roedd yno ddiffyg o £10.885 miliwn. Talwyd y diffyg hwnnw drwy gynyddu Treth y Cyngor 3.8% (£2.713 miliwn), cyflawni arbedion corfforaethol unwaith yn unig (£6.095 miliwn), arbedion bach mewn gwasanaethau (£1.261 miliwn) ac arbedion o 1% (£0.816 miliwn) ar gyllidebau ysgolion.

Ar un llaw, mae hyn wedi golygu nad oedd angen unrhyw arian o'r cronfeydd wrth gefn i gynnal y gyllideb. Ar y llaw arall, gwyddom am nifer o risgiau gyda chostau ynni, codiadau cyflog a'r gwasanaethau hynny sydd yn y gorffennol wedi'i chael yn anodd cadw at y gyllideb a bennwyd ddechrau'r flwyddyn (er enghraifft, gofal cymdeithasol i oedolion a phlant, cludiant ysgol).

4.2 **Rhagamcanion Ariannol Diwygiedig ar gyfer 2024/25 hyd 2026/27 (gweler Atodiad 1)**

Roedd y setliad drafft yn cynnwys cynnydd bychan o 3% yng nghodiadau cyfartalog dangosol setliad 2024/25. Er y croesewir hynny o safbwynt cynllunio, roedd yn creu sefyllfa ariannol anodd iawn. Ni roddwyd unrhyw amcanion ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ac wrth gwrs mae'r hinsawdd wleidyddol ac economaidd yn dal yn ansicr dros ben. Nid yw'r Cyngor erioed wedi profi cyfnod hir o chwyddiant uchel iawn a setliadau ymhell islaw chwyddiant – dyna'r hyn y mae'n ei wynebu yn 2024/25.

Dylid nodi nad yw'r ffigurau yn Atodiad 1 yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer arbedion y gellid eu cyflawni eto – nid yw ond yn dangos amcangyfrif o'r gwasgfeydd ac effaith posibl cynnydd yn Nhreth y Cyngor a'r Grant Cynnal Refeniw (sydd eisoes wedi'i bennu mewn egwyddor). Mae a wnelo'r cynnydd yn y rhagamcanion yn bennaf â lwfio rhag gorwariant tebygol/posibl yn ystod y flwyddyn yng nghyswllt cyflogau, ynni a meysydd lle gwyddwn y mae gwasgfeydd. Ar ben hynny, rydym hefyd wedi adolygu gwasgfeydd allweddol eraill gan fod chwyddiant yn dal yn uchel a bod yno risg hysbys i gywirdeb y system raddio ar gyfer staff, sy'n debygol o fod yn anaddas at y diben wrth i'r Cyflog Byw Cenedlaethol gynyddu. Mae'r tabl yn cynnwys amcangyfrif Isel, Canolig ac Uchel ar gyfer pob rhes – mae hyn yn dangos ansicrwydd ynghylch y ffigurau a faint o waith sydd yn dal angen ei wneud yn benodol. Dyma'r prif bwyntiau:

- Mae'r amcangyfrifon lefel Uchel yn dangos y gallwn wynebu gwasgfeydd gwerth £37 miliwn yn 2024/25 (o gymharu â £25 miliwn yn 2023/24)
- Ni fydd Grant Cynnal Refeniw o 3% ond yn golygu £5.6 miliwn yn ychwanegol (o gymharu â £14.2 miliwn yn 2023/24)
- Os bydd y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn dal yn 3.8%, ni fydd hynny ond yn cynhyrchu incwm o £3 miliwn, a byddai angen cynnydd o 10% i gyflawni £7.7 miliwn. Dylid pwysleisio mai ffigyrau enghreifftiol yn unig yw'r rhain am y tro.
- Er mai'r sefyllfa waethaf bosibl yn ôl pob golwg yw diffyg o £23.4 miliwn yn y gyllideb, os bydd y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn dal yn 3.8%, y sefyllfa waethaf bosibl mewn gwirionedd yw £28.3 miliwn.
- Gellid tybio y dylem gyflawni oddeutu £3 miliwn mewn arbedion 1% (gan gynnwys yr holl wasanaethau ac ysgolion) a thrwy gynyddu ffioedd a thaliadau, a byddai hynny'n lleihau'r ffigurau ychydig.
- Yn ymarferol, mae'n annhebygol y bydd yr holl wasgfeydd yn codi ar y lefel uchaf (gweler hefyd y ffrwd gwaith isod) ond dylem gymryd camau i ostwng y gwariant net a ragwelir oddeutu £20 miliwn ac rydym yn bwriadu gwneud hynny.

4.3 **Meysydd allweddol i gyfrannu at y Strategaeth Gyllidebol ar gyfer 2024/25**

Arbedion Effeithlonrwydd 1% mewn Gwasanaethau – bydd disgwyl i wasanaethau ddal i gyflawni arbedion bach 1% nad ydynt yn cynnwys cynyddrannau graddol mewn ffioedd a thaliadau.

Ffioedd a Thaliadau – bydd disgwyl i wasanaethau gynyddu ffioedd a thaliadau yn unol â chwyddiant costau yn y rhan fwyaf o achosion yn unol â'r polisi ffioedd a thaliadau.

Arbedion Eraill – rhagwelir y bydd y rhain ar ffurf newidiadau mawr mewn gwasanaethau – gofynnwyd i wasanaethau ddatblygu syniadau cychwynnol y bydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn eu hadolygu i sicrhau y gellir eu cyflawni, cyn i'r Cabinet ystyried a ydynt yn dderbyniol yn wleidyddol.

Lleihau gorwariant – gwnaed cais hefyd i wasanaethau ostwng gorwariant – heb gadw rheolaeth dynn ar wariant yn y meysydd hyn bydd yn rhaid i wasanaethau eraill gyflawni mwy a mwy o arbedion.

Treth y Cyngor – bydd angen ystyried lefel Treth y Cyngor (mae'r rhagdybiaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dal yn 3.8%).

Gwasgfeydd – bydd Gwasgfeydd Strategol yn dal i gael eu hystyried pan fyddant yn codi – bydd disgwyl i wasanaethau liniaru effaith gwasgfeydd bach, fodd bynnag.

4.4 **Agweddau allweddol eraill ar y Strategaeth Gyllidebol ar gyfer 2024/25**

Cyfranogiad staff – anogir staff i gyfranogi o'r prosesau yn eu gwasanaethau (gweler 4.2) – datblygir cynllun awgrymiadau staff hefyd yn ystod y misoedd i ddod.

Cyfranogiad aelodau – datblygir trefn ar gyfer casglu syniadau aelodau o'r meinciau cefn a'r grwpiau gwleidyddol, gan gynnwys sicrhau y darperir cyllidebau manwl i'r aelodau seilio eu trafodaethau arnynt.

Arweiniad y Tîm Gweithredol Corfforaethol– bydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn arwain ar gyflawni'r prosiectau arwyddocaol.

Cynllun Cyfathrebu – datblygwyd cynllun ffurfiol drafft y mae'r Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi'i gymeradwyo ac fe'i hadolygir mewn Cyfarfod Briffio'r Cabinet; ceir crynodeb yn Atodiad 2. Mae'n cynnwys manylion ynglŷn â sut y byddwn yn ymgysylltu â'r budd-ddeiliaid a nodir yn Adran 8.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau'r cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys dyraniadau i ddal i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Daw'r goblygiadau ariannol i'r amlwg wrth weithredu'r strategaeth gyllidebol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Datblygir Asesiadau o Effaith ar Les ar gyfer yr holl arbedion cyllidebol sylweddol a chynnydd yn Nhreth y Cyngor yn y misoedd i ddod er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth gyflawn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Fel y nodwyd uchod, datblygwyd Strategaeth Gyfathrebu i sicrhau yr ymgynghorir â'r grwpiau canlynol ar yr adegau priodol: Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, y Tîm Arwain Strategol, y Cabinet, Arweinwyr Grŵp, holl Aelodau'r Cyngor, y Fforwm Cyllidebau Ysgolion, Undebau Llafur, ein gweithwyr, busnesau lleol a'n preswylwyr.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Bydd y rhagamcanion a'r strategaeth a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar wybodaeth gyflawn ac yn barod i bennu cyllideb yn ystod y cyfnod heriol hwn.

.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r broses gyllidebol ynddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda'r nod o nodi cynigion ar gyfer y gyllideb eu hasesu a'u cymeradwyo mewn ffordd drefnus a phrydlon. Bydd angen i gynigion ar gyfer y gyllideb nodi risgiau sy'n benodol i'r cynigion hynny a ffyrdd o'u rheoli.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.